

Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Gorffennaf 2018



Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	4
Argymhellion	6
Dulliau effeithiol o baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol	7
Heriau i ysgolion wrth baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol	15
Nodweddion cyffredin gwireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol	19
Cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol	23
Sail y dystiolaeth	25
Astudiaethau achos ar sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol	26
Geirfa	71
Cyfeiriadau	75

Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae ysgolion yn dechrau sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u cymhwysedd digidol, yn ôl yr hyn a amlinellir yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015). Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o arfer arloesol a diddorol yn y ffordd mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith). Bydd yn rhoi trosolwg i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r paratodau y mae'r ysgolion hyn wedi'u gwneud tua blwyddyn ar ôl rhyddhau'r Fframwaith i ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r Fframwaith ac, felly, nid yw'n mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â'r polisi gwahanol ar dechnoleg gwybodaeth (TG) sy'n bodoli yn y cyfnod ôl-16 na'r pontio rhyngddynt.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u seilio ar ymweliadau â 23 o ysgolion y nodwyd bod ganddynt 'arfer dda' wrth baratoi ar gyfer y Fframwaith; mae saith o'r rhain yn ysgolion Arloesi Digidol. Yn ystod yr ymweliadau, bu arolygwyr yn craffu ar gynlluniau'r cwricwlwm, yn cynnal trafodaethau â'r athro sy'n gyfrifol am y Fframwaith ac athrawon eraill, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, yn cyfweid â disgyblion ac yn craffu ar waith disgyblion. Hefyd, casglwyd tystiolaeth i ategu'r adroddiad yn ystod yr arolygiadau ysgol a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2017.

Mae'r adroddiad yn rhannu arferion a dulliau y gallai ysgolion eraill ystyried eu hefelychu fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Fframwaith. Bydd yr adroddiad yn helpu ysgolion i ddeall eu cryfderau presennol a'u meysydd i'w gwella, ynghyd â deall newidiadau posibl y mae angen eu gwneud i'r arweinyddiaeth neu'r ddarpariaeth i wireddu potensial llawn y Fframwaith. Mae'r adroddiad yn cynnwys cwestiynau hunanarfarnu i ysgolion eu defnyddio i fonitro ac adolygu'u darpariaeth cymhwysedd digidol.

Cefndir

Ym mis Ionawr 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio annibynnol ar TGCh i ystyried dyfodol cyfrifiadureg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion yng Nghymru. Gofynnwyd i'r grŵp hwn nodi ffordd ymlaen ar gyfer gwella'r ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Grŵp Llywio TGCh ym mis Medi 2013 a chyflwynodd argymhellion (Arthur, Crick & Hayward, 2013), gan gynnwys yr argymhelliad i greu fframwaith cymhwysedd digidol â'r un statws â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (FfLIRh) (Llywodraeth Cymru, 2013). Argymhellodd adroddiad Estyn, 'TGCh yng nghyfnod allweddol 3' (Estyn, 2014), y dylai Llywodraeth Cymru roi fframwaith statudol ar gyfer TGCh ar waith o'r

cyfnod sylfaen i'r cyfnod ôl-16, ac adolygu gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol i adlewyrchu datblygiadau cyfredol mewn technoleg.

Ym mis Mawrth 2014, fe wnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ofyn i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae'r adroddiad a ddeilliodd o hynny, Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yn amlinellu cynigion ar gyfer cwricwlwm newydd sy'n adeiladu ar gryfderau addysg yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm ac yn argymhell y dylai'r cwricwlwm gael ei seilio ar chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Hefyd, mae'n cynnig y dylai tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) gael eu hymgorffori yn y meysydd dysgu a phrofiad.

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymwys am Oes – Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes' (Llywodraeth Cymru, 2015a). Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau a gymerir i gyflawni Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015).

Mae Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) yn amlinellu'r angen am Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r rhesymwaith a'r argymhelliad hwn. Cam allweddol yn natblygiad y Fframwaith oedd nodi ysgolion arloesi digidol i arwain creu'r Fframwaith. Fe wnaeth ymglymiad arweinwyr digidol o'r consortia rhanbarthol, ynghyd â chynrychiolwyr Estyn, a chynghor grŵp sicrhau ansawdd o arbenigwyr rhyngwladol yn y maes, gyfrannu'n sylweddol at y broses hefyd. Mae'r amserlen ar gyfer creu'r Fframwaith wedi'i hamlinellu isod:

- Mehefin 2015 – cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y dylai Fframwaith Cymhwysedd Digidol gael ei ddatblygu 'ar lwybr carlam' er mwyn iddo fod ar gael mewn ysgolion erbyn Medi 2016.
- Gorffennaf 2015 – cyhoeddi enwau ysgolion Arloesi Digidol.
- Medi 2015 – dechrau'r gwaith ar ddatblygu'r strwythur a'r cynnwys.
- Chwefror 2016 – yn dilyn ymarfer ymgysylltu, mae'r Arloeswyr Digidol yn diwygio'r Fframwaith i adlewyrchu adborth a gafwyd.
- Mehefin i Orffennaf 2016 – yn dilyn ail ymarfer ymgysylltu, mae'r Arloeswyr Digidol yn diwygio'r Fframwaith i adlewyrchu adborth a gafwyd.
- Medi 2016 – mae'r Fframwaith ar gael i ysgolion a lleoliadau.

Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cracio'r Cod: cynllun i ehangu clybiau codio ym mhob rhan o Gymru' (Llywodraeth Cymru, 2017a). Fe'i cyhoeddwyd i gynyddu hyder athrawon wrth gyflwyno medrau codio ac i gefnogi dilyniant i ddysgwyr o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, ac o raglenni sylfaenol i raglenni mwy datblygedig.

Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-21' (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cenhadaeth genedlaethol ac amserlen ar gyfer cyflwyno system addysg ddiwygiedig, lwyddiannus. Yn ganolog i'r genhadaeth hon y mae:

- sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn meddu ar fedrau digidol lefel uchel a'u bod yn gymwys yn ddigidol

- cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol i ddefnyddio'r technolegau a'r medrau perthnasol i drawsnewid cymhwysedd digidol dysgwyr
- lansio'r fframwaith dysgu proffesiynol digidol a rhaglenni i ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu

Prif ganfyddiadau

Arweinyddiaeth

- 1 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn rheoli newid yn dda ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer sut i baratoi ar gyfer y Fframwaith. Mae'r arweinwyr hyn yn cynnwys staff wrth greu gweledigaeth ar gyfer y Fframwaith ac yn sicrhau bod y corff llywodraethol yn llwyr ddeall pwysigrwydd ei gweithredu'n dda. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir i staff. Maent yn sicrhau bod staff yn deall bod arweinwyr yn cefnogi gwireddu'r Fframwaith yn llawn ac yn monitro'i ddatblygiad yn ofalus.
- 2 Mae llawer o'r arweinwyr hyn yn trosi'u gweledigaeth yn gynllun cynhwysfawr ac ymarferol ar gyfer datblygu'r Fframwaith a rhoddant sail resymegol glir ar gyfer archwilio, hyfforddi, darparu adnoddau, monitro ac arfarnu datblygiadau. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw trefniadau i arfarnu effeithiolrwydd eu cynlluniau digidol wedi'u datblygu'n llawn.
- 3 Mae bron pob un o'r arweinwyr hyn yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i staff er mwyn paratoi ar gyfer y Fframwaith. Maent yn sicrhau bod gan staff yr adnoddau a'r cyfleoedd i ddatblygu'r cymhwysedd a'r hyder angenrheidiol i wireddu'r Fframwaith. Nid oes gan ychydig arweinwyr ddealltwriaeth ddigon da o'r problemau technegol a allai effeithio ar allu'r ysgol i wireddu'r Fframwaith yn llawn.
- 4 Dywed arweinwyr eu bod yn ansicr ynghylch pryd dylid gweithredu'r Fframwaith ac maent yn datgan mai dyma'r rheswm pam nad yw rhai yn gwireddu'r Fframwaith. Nid oes dyddiad gwireddu penodol ar gyfer Fframwaith, sy'n awgrymu i rai y caiff ei gyflwyno ar yr un pryd â'r cwricwlwm newydd, chwe blynedd ar ôl rhyddhau'r Fframwaith am y tro cyntaf. O ganlyniad, gallai'r Fframwaith golli momentwm.

Rôl yr arweinydd digidol

- 5 Mae gan arweinwyr digidol yn y rhan fwyaf o ysgolion wybodaeth drylwyr am y Fframwaith. Mae llawer o athrawon yn gwerthfawrogi brwdfrydedd a chymorth eu harweinydd digidol. Fodd bynnag, mae tuedd gan leiafrif o arweinwyr digidol i greu diwylliant o ddibyniaeth ac maent yn mynd ati i ddatrys problemau technegol yn hytrach na chefnogi athrawon i ddatblygu'u medrau fel y gallant ddatrys y problemau hyn eu hunain. Bron bob tro, mae'r arweinydd digidol yn fwyaf effeithiol pan fydd ganddo gefnogaeth lwyr uwch arweinwyr. Mae arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn aelodau o'r tîm arwain neu, fel arall, gallant gael effaith ar benderfyniadau ysgol gyfan.
- 6 Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae arweinwyr digidol wedi llunio gweithgor ar y Fframwaith, yn cynnwys penaethiaid adran ac athrawon o amrywiol adrannau ar draws yr ysgol. Mae'r dull hwn yn effeithiol gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth eang o athrawon ac yn sicrhau bod bron pob adran yn ymwneud â'r Fframwaith ac yn deall ei effaith ar ddatblygiadau ysgol gyfan.
- 7 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r arweinydd digidol wedi cynnal archwiliad o galedwedd a seilwaith y rhwydwaith i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i gyflwyno'r

Fframwaith. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr digidol yn cynnal archwiliadau gofalus o fedrau athrawon i werthuso pa mor barod ydynt ar gyfer y Fframwaith. Defnyddiant y wybodaeth o'r archwiliad yn dda i gynllunio hyfforddiant, dros gyfnod realistig. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r arweinydd digidol wedi archwilio anghenion hyfforddi'r holl athrawon, nid yw'n gwybod am eu hanghenion hyfforddi ac ni all gynllunio'n llawn i gefnogi staff.

- 8 Mewn ysgolion sydd wedi mapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm, nid yw llawer o arweinwyr digidol wedi penderfynu eto sut i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae mapio'r cwrmpas digidol a'r dilyniant yn bwysig i sicrhau bod disgyblion yn profi ehangder a chyfoeth medrau ar draws y Fframwaith cyfan. Os nad eir i'r afael â'r bylchau hyn yn y ddarpariaeth, mae ysgolion mewn perygl o ddyblygu darpariaeth annigonol bresennol mewn TGCh ar draws y cwricwlwm.
- 9 Nid yw digon o arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd wedi mapio darpariaeth y Fframwaith ar draws cyfnod allweddol 4. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn paratoi'n ddigon da i wireddu'r Fframwaith yn ei gyfanrwydd.

Dysgu proffesiynol

- 10 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae bron pob un o'r staff wedi cymryd rhan mewn trafod y cynllun digidol ar gyfer yr ysgol. Trwy hyn, mae llawer o'r staff yn ymwybodol o gynnwys y cynllun, beth sydd ynghlwm, a'r disgwyliadau ohonynt. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o athrawon agweddau cadarnhaol tuag at baratoi ar gyfer y Fframwaith ac maent yn teimlo'u bod yn rhan o'r datblygiadau.
- 11 Dywed athrawon eu bod yn fwy hyderus â llinynnau cynnwys 'dinasyddiaeth', 'rhyngweithio a chydweithio' a 'chynhyrchu', yn hytrach na 'data' a 'meddwl cyfrifiadurol'. Yn fras, mae hyn yn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o athrawon o gynnwys y cwricwlwm TGCh. Fodd bynnag, mae arweinwyr digidol mewn ysgolion ac mewn consortia o'r farn bod yr asesiad hwn yn optimistaidd, a chredant yn benodol nad yw athrawon yn llwyr werthfawrogi ehangder llinyn dinasyddiaeth.
- 12 Mae ymarferwyr yn y cyfnod sylfaen yn teimlo'n ddigon cymwys o ran y rhan fwyaf o'r agweddau yn y Fframwaith i'w galluogi i gefnogi disgyblion yn briodol. Mae ymarferwyr yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch yn llai sicr am gyflwyno holl ystod y medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon mewn ysgolion arbennig, cynradd, uwchradd a phob oed wedi dechrau trafod sut i addasu cynlluniau tymor hir, canol a byr i ymgorffori'r Fframwaith yn y cwricwlwm.
- 13 Lle nad yw arweinwyr wedi cyfleu eu gweledigaeth yn ddigon llwyddiannus, nid yw ychydig athrawon yn teimlo'u bod wedi cael eu cynnwys ac mae ganddynt agweddau negyddol tuag at baratoi ar gyfer y Fframwaith.
- 14 Mae canolfannau addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dechrau paratoi athrawon dan hyfforddiant â'r medrau angenrheidiol i gyflwyno amrywiaeth ac ehangder medrau digidol gofynnol y Fframwaith. Fodd bynnag, mae datblygiad medrau'r myfyrwyr yn amrywio'n ormodol gan nad ydynt yn ymwneud rhyw lawer â datblygiadau'n gysylltiedig â'r Fframwaith, ac oherwydd eu diffyg ymwybyddiaeth o wendidau yn y ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Gynnwys pob rhanddeiliad mewn datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Fframwaith
- A2 Penodi arweinydd digidol, sicrhau cefnogaeth lwyr uwch arweinwyr a monitro datblygiadau'n rheolaidd
- A3 Archwilio anghenion dysgu proffesiynol athrawon a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio hyfforddiant, cymorth ac arweiniad dros gyfnod realistig
- A4 Mapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm a sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth a bod digon o barhad a dilyniant
- A5 Cynnal archwiliadau caledwedd a seilwaith y rhwydwaith
- A6 Sicrhau bod staff yn cydweithredu â staff eraill i rannu arfer dda

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A7 Gynorthwyo pob ysgol i fynd i'r afael â'r argymhellion uchod
- A8 Monitro pa mor dda mae ysgolion unigol yn dod yn eu blaen â gwireddu'r Fframwaith a herio cynnydd cyfyngedig

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A9 Gyfleu'r disgwyliadau ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith, gan gynnwys amserlenni, i ysgolion yn glir
- A10 Sicrhau bod cyrsiau addysg gychwynnol athrawon yn rhoi i athrawon newydd y medrau angenrheidiol i wireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus
- A11 Gwella'r adnodd archwilio fel ei fod yn bodloni anghenion ysgolion yn well wrth iddynt asesu hyder athrawon i gyflwyno'r Fframwaith

Dulliau effeithiol o baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Arweinyddiaeth

Gweledigaeth

- 15 Yn y 23 ysgol yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o arweinwyr yn rheoli newid yn dda ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer sut i baratoi ar gyfer y fframwaith. Deallant yn dda rôl bwysig gwireddu'r Fframwaith o ran gwneud addysgu yn effeithiol i godi safonau a gwella darpariaeth. Mae arweinwyr llwyddiannus yn cynnwys staff wrth sefydlu a datblygu'r weledigaeth. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn dda. Gwnânt hynny i sicrhau bod staff yn deall bod arweinwyr yn cefnogi gwireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus ac y byddant yn monitro gwireddu a datblygu'r Fframwaith mewn ffordd adeiladol. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r rhan fwyaf o athrawon o'r farn bod arweinwyr wedi rhannu'u gweledigaeth ar gyfer y Fframwaith yn effeithiol. Mae llawer o arweinwyr wedi trosi'u gweledigaeth yn gynllun cynhwysfawr ac ymarferol i ddatblygu'r fframwaith yn bwrpasol ac maent yn rhoi rhesymwaith clir ar gyfer archwilio, hyfforddi, darparu adnoddau, monitro ac arfarnu gwireddu'r Fframwaith.
- 16 Mae arweinwyr effeithiol yn ymgynghori â'r corff llywodraethol ac yn ei gynnwys mewn penderfyniadau allweddol, ac yn sicrhau bod y llywodraethwyr yn deall yn llwyr bwysigrwydd gwireddu'r Fframwaith. Yn benodol, maent wedi pwysleisio pwysigrwydd y Fframwaith fel rhan o gwricwlwm perthnasol a diddorol sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion ac sy'n paratoi'u disgyblion ar gyfer byd gwaith.
- 17 Dywed arweinwyr eu bod yn ansicr ynghylch pryd dylid gweithredu'r Fframwaith ac maent yn datgan mai dyma'r rheswm pam nad yw rhai yn gwireddu'r Fframwaith. Nid oes dyddiad gwireddu penodol ar gyfer Fframwaith, sy'n awgrymu i rai y caiff ei gyflwyno ar yr un pryd â'r cwricwlwm newydd, chwe blynedd ar ôl rhyddhau'r Fframwaith am y tro cyntaf. O ganlyniad, gallai'r Fframwaith golli momentwm.

Cynllunio

- 18 Mae gan lawer o ysgolion brosesau hunanarfarnu addas i ategu cynllunio a gwireddu'r Fframwaith. Mae cynlluniau i ddatblygu'r Fframwaith yn blaenoriaethu datblygiadau allweddol yn briodol. Yn aml, mae cynllun gwella'r ysgol hefyd yn cynnwys cyfeiriadau priodol at y blaenoriaethau hyn.
- 19 Yn aml, mae arweinwyr yn cynnwys yr athro a enwyd yn arweinydd digidol wrth baratoi'r cynllun. Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn cynnwys yr holl staff yn llwyddiannus yn y broses ddatblygu. Trwy'r ymglymiad ehangach hwn, mae arweinwyr yn creu dull ysgol gyfan sy'n tueddu i arwain at fwy o ymrwymiad gan staff. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o'r staff agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiadau'r Fframwaith.

- 20 Mae ansawdd y cynlluniau hyn yn dda ar y cyfan; maent yn glir ac yn cynnwys:
- amserlenni realistig
 - atebolrwydd clir, gan gynnwys pwy sy'n gwneud peth, erbyn pryd, a phwy sy'n monitro'r camau gweithredu
 - sut a phryd byddant yn archwilio anghenion hyfforddi'r staff
 - sut a phryd maent yn bwriadu cynnig i hyfforddiant i staff, ac unrhyw gostau tebygol
 - sut a phryd byddant yn archwilio'r anghenion caledwedd a meddalwedd
 - sut a phryd byddant yn archwilio p'un a yw seilwaith y rhwydwaith yn ddigonol i gyflwyno'r Fframwaith
- 21 Mae mwyafrif o arweinwyr yn dechrau arfarnu effeithiolrwydd eu cynlluniau digidol yn drylwyr ac yn dwyn staff i gyfrif am ddatblygiadau. Pan fydd yr arfarnu'n effeithiol, mae arweinwyr yn trefnu arsylwadau systematig o wersi, craffu ar waith disgyblion, siarad â disgyblion a chraffu ar gynlluniau addysgu. Trwy'r dulliau hyn, maent yn nodi cryfderau a gwendidau mewn safonau a darpariaeth i helpu cynllunio ar gyfer gwelliant pellach.

Penodi arweinydd digidol

- 22 Mae arweinwyr yn yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi penodi aelod o staff â medrau addas i ymgymryd â rôl yr arweinydd digidol. Roedd llawer ohonynt wedi gwneud hynny mor gynnar â thymor yr hydref 2016, ac ychydig yn ystod tymor yr hydref 2015. Mae'r 'mabwysiadwyr cynnar' hyn wedi elwa o gael mwy o amser i baratoi ac maent wedi gallu gwneud hynny'n hwylus, gan gefnogi staff eraill yn dda.
- 23 Mae llawer o arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn sicrhau bod yr arweinydd digidol yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynd i ddigwyddiadau'r consortiwm ar gyfer arweinwyr digidol, fel y gall ddatblygu yn y rôl a chael syniadau ac awgrymiadau gwerthfawr am y ffordd fwyaf effeithiol o weithio. Mae'r rhwydweithiau proffesiynol sy'n cael eu galluogi gan ddigwyddiadau o'r fath yn aml yn cynnig cymorth pellach i arweinwyr digidol, ynghyd â chyfle i gydweithredu ag eraill a dysgu ganddynt.

Dysgu proffesiynol

- 24 Mae arweinwyr effeithiol yn deall pwysigrwydd dysgu proffesiynol. Maent yn sicrhau bod gan staff yr adnoddau a'r cyfleoedd i ddatblygu'r cymhwysedd a'r hyder angenrheidiol i wireddu'r Fframwaith. Mae bron pob un o'r arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i staff er mwyn paratoi ar gyfer y Fframwaith a mynd i'r afael ag anghenion dysgu disgyblion.
- 25 Mae bron pob un o'r arweinwyr yn yr ysgolion nad oeddent yn arloeswyr digidol yn deall buddion gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng ysgolion, gan ddysgu o arbenigedd a phrofiadau'r ysgolion arloesi digidol ac o arweinwyr digidol consortia.
- 26 Mewn llawer o ysgolion, mae arweinwyr wedi dechrau cynnig cyfleoedd i ddisgyblion â diddordeb ddysgu am raglennu cyfrifiadurol a chodio er mwyn dechrau paratoi ar gyfer y Fframwaith. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn gwneud defnydd effeithiol o ddisgybl-arweinwyr digidol i addysgu a chefnogi'u cyd-ddisgyblion ac, mewn ambell enghraifft, staff, mewn clybiau codio.

Adnoddau ac offer

- 27 Dywedodd arweinwyr fod paratoi ar gyfer y Fframwaith wedi mynnu adnoddau ariannol ychwanegol. O ran eu hanghenion caledwedd, seilwaith y rhwydwaith a hyfforddiant, roedd ysgolion yn dechrau o bwyntiau gwahanol ac, o ganlyniad, cafodd costau amrywiol eu nodi gan arweinwyr ysgolion. Roedd gan ysgolion a wariodd dros £25,000 broblemau caledwedd a seilwaith rhwydwaith i'w datrys cyn sefydlu rhaglen hyfforddi i staff.
- 28 Mewn adroddiadau thematig blaenorol gan Estyn (Estyn, 2013 a 2014), canfu arolygwyr fod arweinwyr fwyfwy'n prynu llechi, yn hytrach na gliniaduron neu gyfrifiaduron gwe. Mae arweinwyr erbyn hyn yn dewis cyfuniad o lechi a gliniaduron/cyfrifiaduron gwe gan eu bod o'r farn nad llechi sydd bob amser orau at y diben, er bod ganddynt gryfderau, yn enwedig pan fydd angen bysellfwrdd.
- 29 Mae tua hanner yr ysgolion oedd â phroblemau cysylltedd wedi mynd i'r afael â'r problemau hyn a sicrhau nad yw ansawdd y cysylltiad â'r rhyngwrdd a seilwaith rhwydwaith yr ysgol yn rhwystr mwyach i'w gwaith digidol. Hefyd, maent wedi sicrhau nad yw lefel hidlo ac atal safleoedd ar y rhyngwrdd gan awdurdodau lleol yn rhwystro dysgu ac addysgu.
- 30 Mae lleiafrif o arweinwyr yn mynd i'r afael â phroblemau caledwedd trwy ganiatáu i ddisgyblion ddod â'u dyfais eu hunain. Gwnânt hyn gyda dealltwriaeth dda o bryderon penaethiaid eraill, rhieni a llywodraethwyr ynghylch y camddefnydd posibl o ddyfeisiau symudol gan ddisgyblion. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr hyn weithdrefnau a pholisïau defnydd derbyniol clir i fynd i'r afael â materion o'r fath.
- 31 Mae mwy o galedwedd yn rhoi straen ar y cysylltiad Wi-Fi a gall achosi cysylltiad annibynadwy. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr wedi mynd i'r afael â hyn ar y cychwyn ac mae enghreifftiau o hyn i'w gweld yn astudiaethau achos saith ac wyth.

Arweinwyr digidol

- 32 Ym mwyafrif yr ysgolion, yr arweinydd digidol oedd yr arweinydd TGCh gynt ac, yn aml, daeth yn arweinydd yn awtomatig ar gyfer gwireddu'r Fframwaith. Fodd bynnag, nid dyma'r achos bob tro ac mae enghreifftiau gwerthfawr o'r arweinydd digidol yn dod o gefndir heblaw TGCh. Mae arweinwyr sy'n dewis yr opsiwn hwn yn rhoi rhesymau da dros ddilyn y trywydd hwn. Mae'n bosibl bod gan yr unigolyn dethol y medrau rhyngbersonol a'r medrau rheoli prosiect i ddatblygu'r gwaith, ac mae rhai arweinwyr o'r farn y gallai staff fod yn hapusach gyda rhywun nad yw'n arbenigwyr TGCh yn rhoi cyngor ac arweiniad trawsgwricwlaidd. Dyma'r achos yn aml mewn ysgolion uwchradd. Pan fydd hyn wedi digwydd, gan amlaf, mae'r arweinydd digidol yn cydweithio'n dda â'r adran TGCh.
- 33 Bron bob tro, mae effeithiolrwydd yr arweinydd digidol yn dibynnu'n sylweddol ar b'un a yw'r tîm arwain yn llwyr gefnogol o'r Fframwaith. Mae arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn aelodau o'r tîm arwain neu gallant gael effaith ar benderfyniadau ysgol gyfan.

Codi ymwybyddiaeth o gynnwys y Fframwaith

- 34 Bron bob tro, mae arweinwyr digidol wedi trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff am gynnwys y Fframwaith. Yn aml, mae'r sesiynau hyn yn cynnwys rhannu deunyddiau a fideos a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Mae sesiynau sy'n cynnig hyfforddiant yn yr ysgol yn helpu athrawon i ddeall cynnwys pob llinyn ac yn paratoi staff i gwblhau archwiliad o'u medrau o gymharu â datganiadau'r Fframwaith.
- 35 Mae mwyafrif yr arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd yn sicrhau bod penaethiaid adran yn cydweithredu i sicrhau cyfleoedd rheolaidd, heriol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau digidol mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws pynciau eraill. Maent wedi dechrau monitro gwaith cydweithwyr i sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion.
- 36 Mewn ychydig enghreifftiau, fel yn Ysgol Bro Pedr, dechreuodd arweinwyr digidol waith datblygiadol gyda chydweithwyr trwy wirio p'un a oedd staff yn hyderus eu bod yn meddu ar fedrau digidol sylfaenol cadarn. Yna, fe wnaethant wirio p'un a oedd y staff yn meddu ar y medrau gofynnol i gyflwyno holl linyddau'r cwricwlwm TGCh presennol i adeiladu arnynt, cyn dechrau ar y Fframwaith. Mae staff sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant sylfaenol hwn yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn gan gymheiriaid, sy'n cael ei gynnig mewn amgylchedd cefnogol lle y gallant ddysgu heb ofn, a lle nad yw'r un cwestiwn yn rhy sylfaenol.
- 37 Mewn ychydig ysgolion uwchradd, mae arweinwyr digidol ac uwch arweinwyr yn sefydlu ffyrdd arloesol o ennyn diddordeb adrannau ar draws yr ysgol. Mae astudiaethau achos 12, 13 a 14 yn amlygu'r arfer hon.
- 38 Mae gan arweinwyr digidol yn y rhan fwyaf o ysgolion wybodaeth drylwyr am y Fframwaith. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod cynnwys y llinynnau a'r elfennau yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi'r gwahaniaethau rhwng y Fframwaith a'r disgyddiadau presennol ar gyfer defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm.
- 39 Mae llawer o arweinwyr digidol yn defnyddio'u gwybodaeth am gynnwys y Fframwaith i ddechrau gwella'u medrau eu hunain, medrau aelodau targedig o'r staff, neu fedrau disgyblion mewn rhai o'r meysydd newydd hyn. Yn nodweddiadol, mae'r meysydd hyn yn cynnwys elfennau penodol o ddinasyddiaeth, cydweithio, a data a meddwl cyfrifiadurol. Mae'r staff a'r disgyblion hyn yna'n barod i gefnogi staff a disgyblion eraill wrth iddynt ddechrau ar wireddu'r Fframwaith.
- 40 Mae mwyafrif arweinwyr digidol yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw wedi sefydlu gweithgor ar y Fframwaith yn cynnwys penaethiaid adran ac athrawon o amrywiol adrannau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn effeithiol o ran sicrhau cynrychiolaeth dda o athrawon a sicrhau bod bron pob cyfadran yn ymroi'n llawn i baratoi'r Fframwaith. Hefyd, mae hyn wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth yr holl staff yn yr adrannau hyn o'u cydgyfrifoldeb am ymgorffori'r Fframwaith.

Archwilio

- 41 Mae'r arweinwyr digidol mwyaf effeithiol wedi ymgymryd â nifer o archwiliadau i helpu uwch arweinwyr i ddeall cryfderau a gwendidau parodrwydd presennol yr ysgol i wireddu'r Fframwaith.

- 42 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr digidol wedi cynnal archwiliad o galedwedd i ddarganfod p'un a yw caledwedd TG yr ysgol yn addas at ei ddiben. Pan fydd yr archwiliad o galedwedd wedi amlygu problemau, yn aml, mae'r arweinydd digidol yn gweithio'n effeithiol gyda'r tîm arwain i gynllunio rhaglen o brynu caledwedd dros ddwy flynedd neu fwy.
- 43 Mae llawer o arweinwyr digidol wedi archwilio seilwaith rhwydwaith yr ysgol. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys gwirio cyflymder y rhyngwyd a ddarperir i'r ysgol a pha mor gyflym y mae'n cael ei ddarparu ar draws yr ysgol, ac amlygu unrhyw beth sy'n rhwystro'i ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Ar yr un pryd, mae llawer o arweinwyr digidol yn gwirio p'un a yw'r gweithredu diwifr ar draws yr ysgol yn gadarn ac yn ddigon dibynadwy i gynnal nifer cynyddol y dyfeisiau sy'n dibynnu ar Wi-Fi. Mae ychydig ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o arweiniad diweddar Llywodraeth Cymru i helpu yn hyn o beth.
- 44 Archwiliad allweddol arall y mae llawer o arweinwyr digidol wedi'i gyflwyno yw archwiliad o fedrau athrawon. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr digidol yn defnyddio'r wybodaeth o'r archwiliad hwn yn dda i gynllunio hyfforddiant pwrpasol dros gyfnod realistig. Fodd bynnag, dim ond ychydig ysgolion sydd wedi defnyddio [adnodd anghenion dysgu proffesiynol](#) Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017c) i asesu hyder athrawon i gyflwyno cynnwys y Fframwaith. Dywed y mwyafrif o ysgolion bod hyn oherwydd i'r adnodd gyrraedd yn rhy hwyr ar gyfer eu cynllunio neu ni wnaeth nodi anghenion hyfforddi yn gysylltiedig â phob elfen o bob grŵp blwyddyn yn ddigon da. O ganlyniad, mae ysgolion rhagweithiol wedi llunio'u hadnodd archwilio'u hunain i fodloni'u hanghenion.
- 45 Mewn ysgolion cynradd bach iawn, mae'r arweinydd digidol yn aml yn gyfarwydd ag anghenion pob aelod staff heb fod angen cynnal archwiliad ffurfiol o fedrau athrawon. Fodd bynnag, mewn bron pob ysgol gynradd, mae'r archwiliad wedi cynnwys nodi pa elfennau o'r Fframwaith mae staff yn gyfforddus â nhw, pa rai fydd angen rhywfaint o gymorth â nhw a pha rai sy'n gwbl newydd iddynt. Mae'r mwyafrif wedi defnyddio dull graddio coch, oren, gwyrdd syml ar gyfer pob elfen o'r Fframwaith a oedd yn berthnasol iddynt.
- 46 Mewn ysgolion uwchradd, mae staff yn aml yn dechrau ar lefel is o fedrau digidol na'u cydweithwyr cynradd. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw ysgolion uwchradd wedi cynnig digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion ymarfer eu medrau TGCh presennol mewn cyd-destunau ystyrion ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol nid yw adrannau TGCh ysgolion uwchradd yn dda am gydweithio ag adrannau eraill ac nid ydynt yn rhoi iddynt gyd-destunau perthnasol ar draws y cwricwlwm i gymhwyso'r medrau a ddatblygwyd mewn gwersi TGCh ar wahân. O ganlyniad, yn aml, nid yw athrawon wedi cael cais i gynnwys tasgau TGCh pwrpasol yn eu maes pwnc a bydd y profiad o wneud hyn yn newydd i lawer ohonynt. Yn yr achosion hyn, mae'r her felly i arweinwyr digidol sicrhau cefnogaeth cydweithwyr a nodi'u hanghenion hyfforddiant yn fwy. Mae arweinwyr digidol llwyddiannus yn gwneud hyn yn dda.
- 47 Mae nodi anghenion dysgu proffesiynol ar gyfer y Fframwaith yn her hefyd mewn ysgolion arbennig, gan fod yn rhaid i staff yn yr ysgolion hyn ymateb i anghenion unigol arbenigol a phenodol iawn disgyblion. Fodd bynnag, mae'r arweinwyr digidol yn gwneud hyn yn dda mewn bron pob ysgol arbennig.

- 48 Ar ôl archwilio anghenion hyfforddi athrawon, mae bron pob arweinydd digidol yn cynllunio hyfforddiant perthnasol i staff i sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r cymhwysedd y mae eu hangen i gyflwyno'r Fframwaith i'w disgyblion.
- 49 Mae llawer o athrawon yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn sôn am frwdfrydedd eu harweinydd digidol a'r cymorth ganddo. Maent yn canmol yr hyfforddiant a'r cymorth, a sut mae hyn wedi'u galluogi i ymroi i'r her o ddatblygu'u dysgu proffesiynol eu hunain yn gysylltiedig â'r Fframwaith. Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cyngor ar sut i ddiwygio cynllunio a'r trafodaethau ar y ffyrdd gorau o ymgorffori'r llinynnau yn y cwricwlwm. Ymatebant yn dda i'r hyfforddiant a gynigir ar fedrau digidol sy'n newydd iddynt ac i argaeledd yr arweinwyr digidol i'w cefnogi.
- 50 Oherwydd natur a chyd-destun ysgolion gwahanol, mae'r ffordd y mae'r arweinydd digidol yn cynllunio'r hyfforddiant yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion a rhwng cyfnodau. Mae dulliau posibl yn cynnwys:
- sut mae un ysgol arbennig wedi mapio'r Fframwaith dros y flwyddyn ysgol ar gyfer pob athro / dosbarth ac wedi paratoi hyfforddiant yn benodol iddynt ar y medrau y mae arnynt eu hangen – gan sicrhau hyfforddiant perthnasol a phwrpasol
 - sut mae mwyafrif yr arweinwyr digidol uwchradd wedi llunio gweithgor o athrawon i roi syniadau ar brawf a'u cyflwyno wedyn i aelodau eraill o'u hadran / i grŵp eu Maes Dysgu a Phrofiad
 - sut mae un ysgol wedi llunio 'triawdau' ar draws yr ysgol, gyda grwpiau o dri athro yn cefnogi ei gilydd; mae hyn yn gweithio'n dda i feithrin hyder athrawon a chynnal cymorth dros gyfnod

Mapio'r cwricwlwm

- 51 Mae pob arweinydd digidol yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi dechrau gweithio gyda staff i fapio'r Fframwaith ym meysydd y cwricwlwm presennol. Mae'r mapio hwn yn arbennig o lwyddiannus mewn ysgolion uwchradd oherwydd, yn aml, dyma'r adeg y bydd adrannau yn dechrau trafod sut i ymgorffori'r Fframwaith a deall pwysigrwydd cyfraniad pob athro at wireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn mapio adrannau o'r Fframwaith sy'n fwyaf perthnasol iddyn nhw, yn eu tyb nhw. Er bod y mapio hwn yn datblygu'n dda ar draws cyfnod allweddol 3 mewn sawl achos, dim ond nifer bach iawn o ysgolion sydd wedi ystyried gwneud hyn ar draws cyfnod allweddol 4, gan eu bod yn rhoi blaenoriaeth i baratoi ar gyfer arholiadau.

Paratoi deunyddiau cymorth

- 52 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr digidol yn cynhyrchu deunyddiau cymorth defnyddiol, gan gynnwys cymhorthion cof, i helpu cydweithwyr a disgyblion i ddatblygu'u medrau digidol. Gall y rhain fod ar ffurf taflenni gwybodaeth electronig yn rhestru apiau neu wefannau defnyddiol, fideos addysgiadol yn dangos sut i ddefnyddio amrywiol apiau neu feddalwedd, neu syniadau am sut i gyflwyno'r Fframwaith yn y dosbarth.
- 53 Mae llawer o arweinwyr digidol wedi dechrau cyflwyno 'tasgau cyfoethog', sy'n ymgorffori medrau digidol yn ogystal â medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a datrys

problemau. Mae'r tasgau hyn yn tanio brwdfrydedd disgyblion ac yn eu herio. Mae rhai tasgau cyfoethog yn cyflwyno elfennau newydd o'r Fframwaith, er enghraifft cydweithredu trwy Skype mewn ysgolion gwledig neu gyflwyno codio.

Parodrwydd ar gyfer gwireddu'r Fframwaith

- 54 O ganlyniad i weithgarwch arweinwyr digidol a gweledigaeth arweinwyr, mae bron pob ysgol yr ymwelwyd â nhw eisoes wedi dechrau gwireddu'r Fframwaith. Mae'r ffordd mae arweinwyr digidol wedi dechrau gwireddu'r Fframwaith yn amrywio, ac nid yw un ffordd fel petai'n well na ffordd arall.
- 55 Mewn dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, dechreuodd pob athro wireddu'r Fframwaith ar yr un pryd. Fodd bynnag, fe wnaeth lleiafrif o ysgolion ei gyflwyno fesul cam, gan ganiatáu i'r staff mwy hyderus ddechrau'n gyntaf a rhoi cynnig arni, ac i eraill arsylwi a dilyn eu hesiampl yn ddiweddarach. Gallai'r dull hwn apelio i ysgolion sydd â grŵp o athrawon llai hyderus. Mae nifer bach iawn o ysgolion yn bwriadu ymgorffori un llinyn ar y tro er mwyn rhoi ffocws i'r hyfforddiant a meithrin arbenigedd un cam ar y tro.
- 56 Mae dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw o'r farn eu bod yn barod i wireddu'r Fframwaith yn llawn. Erbyn hydref 2018, bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwireddu'r Fframwaith. Mae hyn yn adlewyrchu lefel sylweddol o waith gan bawb a oedd yn gysylltiedig. Mae'r lefel hon o barodrwydd hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa lle'r oedd bron i 40% o'r ysgolion wedi enwi arweinydd digidol erbyn hydref 2015. Erbyn hydref 2016, roedd hyn wedi codi i 80% bron o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

Dealltwriaeth athrawon a chyfleoedd am ddysgu proffesiynol

- 57 Mae llawer o staff yn elwa o gael arweinwyr sy'n rhannu'u gweledigaeth ynghylch datblygu'r Fframwaith yn glir gyda nhw. Mae'r staff hyn yn gwerthfawrogi ac yn deall bod gwireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus yn cael cefnogaeth lwyr yr uwch dîm arwain, a fydd yn monitro datblygiad y Fframwaith mewn ffordd gefnogol. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o athrawon o'r farn bod yr arweinwyr wedi rhannu'u gweledigaeth ynghylch y Fframwaith yn dda. Oherwydd eu bod yn deall y weledigaeth sy'n cael ei rhannu gan arweinwyr, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwybod bod paratoi ar gyfer y Fframwaith yn flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol a beth mae hynny'n ei olygu i'r ysgol.
- 58 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r holl staff wedi cymryd rhan mewn trafod a chytuno ar y cynllun digidol ar gyfer yr ysgol. Trwy gymryd rhan fel hyn, mae llawer o staff yn ymwybodol o gynnwys y cynllun, beth mae'n ei olygu a'i ddisgwyliadau ohonynt. O ganlyniad, mae agweddau'r rhan fwyaf o'r athrawon yn yr ysgolion hyn tuag at baratoi i wireddu'r Fframwaith yn gadarnhaol ac maent yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys. Maent yn gwerthfawrogi sut mae'r Fframwaith yn ymdrin â datblygiad medrau digidol gydol addysg orfodol ac y dylid defnyddio'r medrau hyn mewn cyd-destunau pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Credant fod blaenoriaethu'r medrau digidol hyn yn paratoi disgyblion yn dda i ddelio â manteision a pheryglon technoleg, a chadw'u hunain yn ddiogel ar-lein, adnabod seiber-fwlio ac osgoi dwyn hunaniaeth. Mae'r athrawon hyn o'r farn bod y Fframwaith yn ddull o gynnig cysondeb i brofiadau disgyblion ar draws Cymru.

- 59 Mae'r rhan fwyaf o athrawon mewn ysgolion arbennig o'r farn bod y Fframwaith yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Maent yn gwerthfawrogi bod y Fframwaith wedi'i rannu'n gamau bychain fel y gall dysgwyr symud ymlaen drwyddynt ar eu cyflymder eu hunain.
- 60 Yn gyffredinol, mae athrawon yn teimlo'n fwy hyderus gyda chynnwys 'dinasyddiaeth', 'rhyngweithio a chydweithio' a 'chynhyrchu', yn hytrach na 'data a meddwl cyfrifiadurol'. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth llawer o athrawon o'r cwricwlwm TGCh. Fodd bynnag, mae trafodaethau ag arweinwyr digidol ysgolion ac arweinwyr digidol consortia yn amlygu nad yw athrawon ar y cyfan yn gwerthfawrogi ehangder y cynnwys yn y llinyn dinasyddiaeth.
- 61 Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn y cyfnod sylfaen yn teimlo'n ddigon cymwys yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar y Fframwaith i gefnogi disgyblion yn briodol. Mae ymarferwyr yn gyffredinol yn teimlo'n llai cymwys i gyflwyno holl ystod y medrau digidol yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch.
- 62 Mae'r rhan fwyaf o athrawon mewn ysgolion arbennig, cynradd, uwchradd a phob oed wedi dechrau trafod sut i addasu cynlluniau tymor hir, canol a byr i ymgorffori'r Fframwaith. Mae ychydig ysgolion wedi dechrau ymgorffori elfennau o'r Fframwaith ac wedi adolygu'u harfer yn unol â hynny.
- 63 Mae cynnydd ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw wrth addasu cynllunio ar gyfer y Fframwaith ar draws y pwnc yn datblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi creu gweithgorau o athrawon o wahanol adrannau i roi prawf ar ddulliau cyn eu rhannu gydag eraill yn yr adran.

Heriau i ysgolion wrth baratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Gweledigaeth

- 64 Nid oes gweledigaeth digon clir ynghylch sut i baratoi i wireddu'r Fframwaith gan ychydig arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. O ganlyniad, nid ydynt wedi gallu rhannu'r weledigaeth yn ddigon da gyda'u staff. Felly, nid yw staff yn gwybod p'un a yw'r uwch dîm arwain yn llwyr gefnogi gwireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus, na sut byddant yn monitro'i ddatblygiad. Mewn ychydig ysgolion, nid yw'r arweinydd digidol wedi cymryd rhan mewn creu'r weledigaeth ysgol gyfan ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith. O ganlyniad, nid oes ganddynt ymdeimlad o berchenogaeth ar y weledigaeth ac, mewn nifer bach o enghreifftiau, maent yn gweithio ar eu pen eu hunain heb gymorth digonol.
- 65 Mae arweinwyr tua hanner yr ysgolion â phroblemau cysylltedd heb fynd i'r afael â'r broblem na sicrhau nad yw ansawdd y cysylltiad â'r rhyngwrdd a seilwaith rhwydwaith yr ysgol yn rhwystro'u gwaith digidol. Nid ydynt wedi sicrhau nad yw lefel hidlo ac atal safleoedd ar y rhyngwrdd gan yr awdurdod lleol yn rhwystro dysgu ac addysgu. Yn ogystal, nid oes gan ychydig arweinwyr ddigon o ddealltwriaeth o'r problemau technegol sy'n cael effaith fawr ar allu'r ysgol i wireddu'r Fframwaith yn llawn.
- 66 Nid yw ychydig arweinwyr yn deall budd gweithio ar y cyd rhwng ysgolion a dysgu o arbenigedd ysgolion arloesi digidol a'r consortia rhanbarthol. Nid yw'r arweinwyr hyn yn gwneud digon i annog staff i gydweithio ag eraill, rhannu arfer neu ymweld ag ysgolion da.

Cynllunio

- 67 Nid yw ychydig arweinwyr wedi cynhyrchu cynllun digidol sy'n blaenoriaethu datblygiadau ar gyfer eu hysgol neu nid ydynt wedi cynnwys paratoi ar gyfer y Fframwaith fel blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. O ganlyniad, ni all arweinwyr yn yr ysgolion hyn werthuso effeithiolrwydd eu strategaeth na'u cynlluniau digidol, na dal staff yn gyfrifol am ddatblygiadau. Mae diffyg strategaeth neu gynllun pwrpasol hefyd yn llesteirio effeithiolrwydd llywodraethwyr i arfarnu'r ddarpariaeth a mesur cynnydd.
- 68 Fe wnaeth ychydig arweinwyr baratoi eu gweledigaeth a'u cynllun ar gyfer gwireddu'r Fframwaith heb gynnwys yr arweinydd digidol na gweddill y staff yn y broses. Heb yr ymglymiad ehangach hwn, nid yw arweinwyr yn creu dull ysgol gyfan y gall staff ei ddeall a'i gefnogi. O ganlyniad, yn yr enghreifftiau hyn, mae gan staff agweddau negyddol tuag at baratoi ar gyfer y Fframwaith.
- 69 Lle nad yw cynlluniau'n ddigon da, mae'r diffygion canlynol i'w gweld yn aml:
- nid yw trefniadau ar gyfer sut a phryd y byddant yn archwilio p'un a yw seilwaith y rhwydwaith yn ddigonol i fodloni anghenion cyflawni'r Fframwaith yn cael eu nodi

- mae amserlenni'n amwys ac nid ydynt yn cynnwys pwyntiau gwirio i adolygu p'un a gyflawnwyd cerrig milltir/cyflawniadau
- nid yw'r trefniadau monitro ac arfarnu yn glir
- nid yw anghenion hyfforddi staff wedi'u nodi
- mae trefniadau neu gynlluniau hyfforddiant yn rhy amwys
- mae'r trefniadau ar gyfer sut a phryd byddant yn archwilio'r caledwedd a'r feddalwedd yn rhy amwys

- 70 Yn gyffredinol, er bod ysgolion uwchradd yn cynllunio'n dda ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith yng nghyfnod allweddol 3, dim ond nifer bach iawn ohonynt sydd wedi dechrau mynd i'r afael â'r ffordd byddant yn gwneud hynny yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr digidol o'r farn mai un ateb amlwg fyddai adolygu elfen Llythrennedd Digidol bresennol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- 71 Nid yw digon o arweinwyr yn arfarnu effeithiolrwydd eu cynlluniau digidol yn ddigon trylwyr i ddal staff yn gyfrifol am ddatblygiadau. Lle nad yw'r arfarnu'n effeithiol, nid yw arweinwyr yn trefnu arsylwadau gwersi systematig, craffu ar waith disgyblion, siarad â disgyblion i gael eu barn neu archwilio cynlluniau addysgu. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o gryfderau a gwendidau darpariaeth na safonau.

Arweinwyr digidol

- 72 Er bod yr holl arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi penodi arweinydd digidol, nid oes gan bob arweinydd digidol swydd-ddisgrifiad neu swydd-ddisgrifiad sy'n ddigon clir. O ganlyniad, nid yw'r disgwyliadau ar gyfer unigolion yn ddigon penodol er mwyn dwyn arweinwyr digidol i gyfrif neu eu cefnogi. Ni wnaeth ychydig arweinwyr benodi arweinwyr digidol yn ddigon buan. Mewn ychydig bach iawn o ysgolion, ni chymerwyd y cam hwn tan dymor yr hydref 2017, blwyddyn ar ôl rhyddhau'r Fframwaith. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn wedi colli amser gwerthfawr pan fyddai arweinwyr digidol ac athrawon wedi gallu ymgyswngi â'r Fframwaith. O ganlyniad, nid yw dealltwriaeth yr arweinwyr digidol hyn o'r Fframwaith mor ddatblygedig â dealltwriaeth y rhai a ddechreuodd lawer cynt. Mewn ychydig bach iawn o achosion, nid yw arweinwyr yn cefnogi arweinwyr digidol yn ddigon da. Lle nad yw'r arweinydd digidol yn aelod o'r tîm arwain, weithiau, mae'n teimlo nad oes ganddo'r awdurdod i fynd i'r afael â phroblemau anodd, fel problemau offer neu bryderon am ansawdd y ddarpariaeth.
- 73 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r arweinydd digidol wedi archwilio anghenion hyfforddi'r holl athrawon. O ganlyniad, nid yw llawer o'r arweinwyr digidol hyn yn ymwybodol o anghenion hyfforddi'r aelodau staff hyn. Mae hyn yn wendid pwysig, oherwydd gall diffyg hyfforddiant i feithrin hyder a chymhwysedd athrawon fod yn rhwystr sylweddol rhag gwireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus. Defnyddiodd ychydig arweinwyr digidol adnodd archwilio a ddarparwyd gan ymgynghorydd allanol. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau hyn bob amser wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar y Fframwaith. O ganlyniad, er bod y rhain yn briodol ar y cyfan, nid oedd fawr o werth iddynt mewn perthynas â'r Fframwaith.
- 74 Mewn ychydig bach iawn o ysgolion, nid yw'r arweinydd digidol wedi archwilio p'un a oes digon o galedwedd, na ph'un a yw seilwaith rhwydwaith yr ysgol yn ddigon

cadarn i gyflwyno'r Fframwaith. Mae hyn hefyd yn wendid pwysig, gan fod diffygion mewn caledwedd neu seilwaith y rhwydwaith yn gallu rhwystro'r Fframwaith rhag cael ei wireddu'n llwyddiannus.

- 75 Er bod bron pob arweinydd digidol yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi dechrau gwireddu'r Fframwaith ar draws yr ysgol, nid dyma'r achos ym mhob ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r arweinydd digidol wedi gwneud y defnydd gorau o'r amser mae ysgolion wedi'i gael i baratoi i wireddu'r Fframwaith. Mae parodrwydd ysgolion o'r fath ar gyfer y Fframwaith yn ddigonol ar y gorau. Nid yw ychydig arweinwyr digidol yn ddigon rhagweithiol ac nid ydynt wedi cynnwys athrawon eto wrth drafod sut i gynllunio gweithgareddau a gwersi. Nid yw ychydig bach iawn o arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd wedi sicrhau bod penaethiaid adran yn cydweithredu i sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd heriol i ddefnyddio'u medrau digidol ar draws pynciau. Nid ydynt wedi dechrau monitro gwaith cydweithwyr i sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu cynnig.
- 76 Ym mwyafrif yr ysgolion sydd wedi mapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm, nid yw arweinwyr digidol wedi penderfynu eto sut i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Mae angen i ysgolion ddatrys y broblem hon i sicrhau bod disgyblion yn profi ehangder a chyfoeth medrau yn y Fframwaith. Oni bai bod ysgolion yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y ddarpariaeth, mae perygl y byddant yn dyblygu problemau'r ddarpariaeth wael bresennol mewn TGCh ar draws y cwricwlwm, gan fod elfennau allweddol yn cael eu hepgor yn aml. Nid oes digon o arweinwyr digidol wedi dechrau mapio darpariaeth y Fframwaith ar draws cyfnod allweddol 4 yn benodol. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn paratoi'n dda i wireddu'r Fframwaith yn ei gyfanrwydd.
- 77 Mewn ychydig ysgolion, nid yw arweinwyr digidol wedi dechrau paratoi ar gyfer y Fframwaith yn ddigon da. Nid ydynt yn cynnig cyfleoedd rhaglennu cyfrifiadurol a chodio i ddisgyblion a staff. Ni chaiff disgyblion eu hyfforddi'n arweinwyr digidol i addysgu a chefnogi'u cymheiriaid ac, mewn ambell achos, staff. Nid yw ychydig arweinwyr digidol yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymweld ag ysgolion arloesi digidol neu fynd i ddigwyddiadau hyfforddi consortia. O ganlyniad, nid ydynt yn cael cyfleoedd i weld arfer dda sy'n dod i'r amlwg, arfarnu'r hyn a ddysgwyd, neu rwydweithio. Mae lleiafrif o arweinwyr digidol yn creu ethos o ddibynniaeth ymhlith staff ar eu harbenigedd. O ganlyniad, maent yn mynd ati eu hunain i ddatrys materion a phroblemau digidol mewn ystafelloedd dosbarth, yn hytrach na galluogi athrawon i ddatblygu'r medrau hyn eu hunain.

Dealltwriaeth athrawon o ddysgu proffesiynol a chyfleoedd am ddysgu proffesiynol

- 78 Mewn ychydig bach iawn o ysgolion, nid yw athrawon yn deall bod cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddefnyddio medrau digidol yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu, trwy symbylu ac ennyn diddordeb disgyblion. Nid yw'r athrawon a'r staff cymorth hyn yn defnyddio medrau digidol yn dda i ennyn diddordeb a thanio brwdfrydedd disgyblion. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn llai hyderus yn gyffredinol i gyflwyno holl ystod y medrau digidol yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch.

- 79 Nid yw ychydig bach iawn o ysgolion cynradd ac arbennig wedi dechrau trafod sut i addasu cynlluniau tymor hir, canol a byr i ymgorffori'r Fframwaith. Nid yw'r ysgolion hyn wedi dechrau gweithredu elfennau o'r Fframwaith nac adolygu'u harfer yn unol â hynny.
- 80 Nid yw athrawon yn y lleiafrif o ysgolion cynradd ac arbennig wedi dechrau cynnig digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddisgyblion ymarfer eu medrau digidol mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm.
- 81 Mae canolfannau addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dechrau paratoi athrawon dan hyfforddiant â'r medrau angenrheidiol i gyflwyno amrywiaeth ac ehangder medrau digidol gofynnol y Fframwaith. Fodd bynnag, mae datblygiad medrau'r myfyrwyr yn amrywio'n ormodol gan nad ydynt yn ymwneud rhyw lawer â datblygiadau'n gysylltiedig â'r Fframwaith, ac oherwydd eu diffyg ymwybyddiaeth o wendidau yn y ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion.
- 82 Nid yw ychydig athrawon yn teimlo'u bod wedi'u cynnwys yn y broses o baratoi ar gyfer y Fframwaith ac mae ganddynt agweddau negyddol tuag at y paratoi ar gyfer gwireddu'r Fframwaith. Mae'r athrawon hyn o'r farn nad oes digon o amser yn cael ei roi i staff weithredu mentrau newydd a bod gormod o fentrau'n cael eu cyflwyno.

Nodweddion cyffredin gwireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn llwyddiannus

Mae arweinwyr

- Yn diffinio'r **weledigaeth a'r cyfeiriad strategol** ar gyfer yr ysgol yn glir; mae'r weledigaeth hon yn esblygu wrth i'r ysgol adolygu'i chynnydd wrth wireddu'r Fframwaith
- Yn sefydlu **gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol** ymhlith staff i gefnogi gwelliant parhaus a gwaith tîm effeithiol
- Yn sefydlu a chynnal diwylliant lle'r brif flaenoriaeth yw **gwella safonau a lles** i bob disgybl
- Yn gwneud **gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol a'u haddysgu** yn broses allweddol sy'n cyfrannu at wella safonau mewn medrau digidol
- Yn cyflwyno **cwricwlwm / fframwaith cymhwysedd digidol** sy'n **bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn llawn**
- Yn cynnal ffocws cyson ar wella medrau **digidol** disgyblion, gan gynnwys medrau meddwl uwch, datrys problemau a rhesymu
- Yn gwneud yn siŵr bod cyfleoedd **dysgu proffesiynol** i staff yn gwella ansawdd y ddarpariaeth medrau digidol a safonau medrau digidol i ddisgyblion
- Yn gwneud pob aelod staff, yn enwedig y rhai mewn swyddi rheoli, **yn atebol** am wireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus
- Yn gwneud yn siŵr bod deilliannau **hunanarfarnu** yn deillio o **dystiolaeth uniongyrchol** a bod ganddynt **gysylltiad agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol**
- Yn rhoi dadansoddiadau clir, dealladwy a gonest i **lywodraethwyr** o ba mor dda mae'r ysgol yn perfformio ac yn eu hannog i herio tanberfformio

	Dechrau'r daith	Gwneud cynnydd	Adeiladu momentwm	Cynnal cynnydd
Gweledigaeth strategol	Sefydlu gweledigaeth ar gyfer gwireddu'r Fframwaith	Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn deall gweledigaeth a nodau'r ysgol. Mae arweinwyr yn adolygu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn ategu gwelliant pellach.	Mae'r holl staff a chymuned yr ysgol yn datblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer gwelliant parhaus ac maent yn gwybod beth yw eu rôl wrth gyflawni'r weledigaeth. Maent yn adolygu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn ategu gwelliant pellach.	Mae'r ysgol yn parhau â'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn cynnal safonau uchel ac yn ategu gwelliant pellach.

	Dechrau'r daith	Gwneud cynnydd	Adeiladu momentwm	Cynnal cynnydd
Datblygu rôl yr arweinydd digidol ac arweinwyr eraill yn yr ysgol	Sefydlu strwythur rheoli clir i gefnogi'r Fframwaith. Penodi arweinydd digidol sydd â chefnogaeth lwyr yr uwch dîm rheoli.	Datblygu rôl yr arweinydd digidol a sicrhau bod archwiliadau o galedwedd, seilwaith y rhwydwaith a medrau athrawon yn cael eu cynnal. Sicrhau bod y wybodaeth sy'n deillio o'r archwiliadau hyn yn llywio cynllunio ar gyfer gwella a hyfforddiant staff. Dosbarthu cyfleoedd arwain a sicrhau bod staff yn y rolau hyn yn deall beth yn benodol y maent yn atebol amdano a sicrhau bod ganddynt y medrau i gyflawni'r dyletswyddau hyn.	Mae rôl yr arweinydd digidol, a'r arweinyddiaeth wasgaredig, wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n llwyddo'n gyson i godi safonau yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol ac addysgu medrau digidol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn barod i wireddu'r Fframwaith. Mae'r holl arweinwyr yn deall yn glir eu cyfrifoldebau o ran darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol a safonau digidol disgyblion.	Mae rôl yr arweinydd digidol a'r arweinyddiaeth wasgaredig wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n hynod lwyddiannus o ran codi safonau yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol ac addysgu medrau digidol. Mae arweinwyr yn aml yn helpu i wella systemau y tu allan i'w hysgol eu hunan.
Gwella addysgu medrau digidol	Sefydlu systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu ynghylch gwireddu'r Fframwaith. Sicrhau bod yr holl staff yn deall sut beth yw addysgu medrau digidol yn dda	Gwreiddio systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith. Cynnwys staff yn y broses hon. Sicrhau bod yr holl staff yn addysgu medrau digidol yn dda mewn gwrsi.	Mae systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith yn effeithiol. Mae'r holl staff mewn swyddi arweinyddiaeth yn cymryd rhan ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y gwaith hwn. Mae gan bob athro ddealltwriaeth gadarn o sut beth yw addysgu medrau digidol yn dda neu'n rhagorol ac mae'r rhan fwyaf o wersi yn dda neu'n well.	Mae trefniadau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith yn effeithiol ac yn ddibynadwy yn gyson. Mae agweddau ar y gwaith hwn wedi'u dirprwyo'n llawn. Mae ansawdd addysgu medrau digidol yn dda yn gyson ac yn rhagorol yn aml. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn cyflawni safonau uchel iawn.

	Dechrau'r daith	Gwneud cynnydd	Adeiladu momentwm	Cynnal cynnydd
Datblygu cwricwlwm digidol i fodloni anghenion pob disgybl	Sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn bodloni gofynion y Fframwaith. Gwella medrau digidol disgyblion.	Sicrhau bod y cwricwlwm digidol yn bodloni gofynion y Fframwaith a'i fod yn cyfateb i anghenion a ddiddordebau'r holl ddisgyblion, gan eu galluogi nhw i wneud cynnydd cadarn. Cynnal y ffocws ar wella medrau digidol a medrau dysgu annibynnol disgyblion.	Sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn cynnal lefelau uchel o ddiddordeb mewn dysgu ac yn helpu pob disgybl i wneud cynnydd da. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o sut i ddatblygu medrau digidol a medrau dysgu annibynnol disgyblion i lefel uchel.	Sicrhau bod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn hynod ddiddorol a'u bod yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd sylweddol yn gyson. Gallai agweddau ar y ddarpariaeth hon fod yn deilwng o'u hefelychu mewn ysgolion eraill ac mae'r ysgol yn rhannu'i harfer dda yn effeithiol. Mae'r holl staff yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau dysgu annibynnol disgyblion yn hynod lwyddiannus.

	Dechrau'r daith	Gwneud cynnydd	Adeiladu momentwm	Cynnal cynnydd
Dysgu proffesiynol	Yn dilyn archwiliad o fedrau staff, sefydlu trefniadau dysgu proffesiynol i: - ddarparu cymorth penodol i staff, gan gynnwys medrau digidol perthnasol a diddorol yn eu haddysgu - darparu cymorth penodol i alluogi staff i gynorthwyo'r ysgol i gyrraedd nodau gwella - defnyddio DPP i sefydlu a chynnal disgwyliadau uchel o ran darparu medrau digidol i ddisgyblion Dechrau datblygu cyfleoedd i staff gyfrannu at weithgorau i ganolbwyntio ar wireddu'r Fframwaith.	Parhau i ehangu cyfleoedd datblygu i staff gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol er mwyn gwella'u harfer eu hunain a chodi safonau i ddisgyblion. Mae gweithgorau'n dechrau cyfrannu'n llwyddiannus at wireddu'r Fframwaith a'i gynllunio ar draws y cwricwlwm. Maent yn dechrau ymwneud â phartneriaid allanol i ddatblygu arfer dda.	Mae'r trefniadau DPP yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ddigidol yn effeithiol. Maent yn cefnogi darpariaeth well i ddisgyblion yn gyson. Mae llawer o staff yn ymholi ac yn myfyrio i wella dysgu ac addysgu medrau digidol a chaiff arfer dda ei rhannu ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhwydweithio'n rheolaidd â chydweithwyr mewn ysgolion eraill i godi safonau addysgu, dysgu a lles drwy'r Fframwaith.	Mae'r trefniadau ar gyfer DPP yr holl staff yn hynod effeithiol ac yn cefnogi diwylliant o wella medrau digidol yn barhaus yn yr ysgol. Mae'r holl staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol effeithiol yn unigol neu fel rhan o weithgor yn rheolaidd. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil, anogaeth neu fentora i wella'u harfer broffesiynol eu hunain ac arfer broffesiynol pobl eraill wrth ddefnyddio'r Fframwaith.
Defnyddio medrau digidol disgyblion	Sefydlu trefniadau i gyfrif am fedrau digidol disgyblion ac ystyried eu defnyddio i hyfforddi'u cymheiriaid a staff.	Datblygu trefniadau a hyfforddiant ymhellach i ddefnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi'u cymheiriaid a staff.	Mae defnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi'u cymheiriaid a staff yn rhan ddylanwadol, sefydledig o wireddu'r Fframwaith.	Mae defnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi'u cymheiriaid a staff yn cael effaith gadarnhaol, reolaidd ar godi safonau darpariaeth, dysgu a lles.

Cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Fel man cychwyn ar gyfer cynllunio ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, gall ysgolion ddefnyddio'r cwestiynau canlynol fel rhan o'u hunanarfarniad:

Arweinyddiaeth

- 1 A oes gennym ni weledigaeth glir, y mae'r holl staff wedi'i chreu a chytuno arni, ar gyfer y ffordd rydyn ni'n cynllunio ar gyfer y Fframwaith? A ydyn ni wedi rhannu'r weledigaeth hon a sicrhau bod y corff llywodraethol yn deall pwysigrwydd gwireddu'r Fframwaith?
- 2 A ydyn ni wedi trosi'r weledigaeth hon yn gynllun cynhwysfawr ac ymarferol i fwrw ymlaen â'r fenter, a rhoi sail resymegol glir ar gyfer archwilio, hyfforddi, darparu adnoddau, monitro ac arfarnu?
- 3 A ydyn ni wedi penodi arweinydd digidol ac a yw'r holl staff yn deall bod gan yr arweinydd gefnogaeth lwyr y tîm arwain? Sut byddwn ni'n monitro'r cynnydd wrth wireddu'r Fframwaith ar draws yr ysgol?

Arweinydd digidol

- 4 Sut byddaf i'n cynnal archwiliad caledwedd a seilwaith y rhwydwaith i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i gyflwyno'r Fframwaith?
- 5 Sut byddaf i'n archwilio medrau athrawon yn ddigon trylwyr i arfarnu'u parodrwydd i wireddu'r Fframwaith ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio hyfforddiant dros gyfnod realistig? Sut byddaf i'n sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i wireddu'r Fframwaith?
- 6 Sut byddaf i'n monitro bod yr holl staff yn cymryd rhan mewn paratoi i ddatblygu medrau cymhwysedd digidol disgyblion a gwireddu'r Fframwaith?
- 7 Sut byddaf i'n dod ag athrawon ynghyd i fapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm, yn monitro'r datblygiad ac yn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth?

Dysgu proffesiynol

- 8 A gaiff athrawon eu hannog i fod yn arloesol wrth gynllunio? Er enghraifft:
 - a yw athrawon yn cysylltu dysgu'r disgyblion â'u cyd-destun lleol / Cymreig lle bynnag y bo modd?
 - a yw'r pynciau sy'n cael eu haddysgu a'r tasgau cyfoethog a ddefnyddir yn berthnasol i ddisgyblion ac yn gyfredol?
 - a yw addysgu yn ymatebol ac yn hyblyg?

- a yw athrawon yn ymateb i broblemau lleol, cenedlaethol neu fyd-eang, er enghraifft ymosodiadau seiber neu secstio?
 - a gaiff disgyblion gyfleoedd i ddatblygu'u gwaith neu eu syniadau mewn cyd-destun go iawn, gan ddatblygu gwerth eu gwaith?
 - a yw athrawon yn defnyddio technoleg yn greadigol i gefnogi dysgu ac ehangu dealltwriaeth disgyblion trwy ehangu eu profiadau i gynnwys dimensiwn rhyngwladol lle y bo'n berthnasol?
- 9 Sut byddwn ni'n sicrhau bod gennym ni, fel athrawon, ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy abl?
- 10 A yw disgyblion yn arwain eu dysgu? Sut byddwn ni'n cael dealltwriaeth o'r hyn mae disgyblion yn ei fwynhau neu beidio am weithredu'u medrau cymhwysedd digidol mewn gwersi? Sut byddwn ni'n sicrhau y bydd disgyblion yn ymwneud â'r hyn maen nhw'n ei ddysgu gan ddefnyddio'u medrau cymhwysedd digidol, a sut?

Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymweliadau â 23 o ysgolion, trafodaethau â'r arweinydd digidol ym mhob un o'r 4 consortiwm, a holiadur ar-lein a gwblhawyd gan athrawon yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Roedd yr ysgolion a ddewiswyd ar gyfer ymweld â nhw yn ysgolion oedd wedi gwneud cynnydd da wrth wireddu'r Fframwaith, yn ôl arolygiadau a thrafodaethau ag arweinwyr digidol y consortia. O'r 23 ysgol, roedd 7 yn ysgolion Arloesi Digidol oedd ynghlwm wrth greu'r Fframwaith.

Wrth ymweld â'r ysgolion hyn, bu arolygwyr:

- yn cynnal trafodaethau ag aelodau'r tîm arwain
- yn trafod sut cafodd gwireddu'r Fframwaith ei gynllunio a'i gyflwyno, gyda'r arweinydd digidol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion gyda'u gwaith
- yn cyfarfod ag athrawon i drafod pa mor dda y cafodd y Fframwaith ei weithredu yn eu hysgol a'u hannog i lenwi holiadur ar-lein
- yn adolygu dogfennau cynllunio a mapio'r cwricwlwm, ynghyd â chynllun gwella'r ysgol neu ei chynllun digidol

Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Basaleg, Casnewydd
 Ysgol Bro Pedr, Ceredigion
 Ysgol Bryn Elan, Conwy
 Ysgol Comins Coch, Ceredigion
 Ysgol Cornist Park, Fflint
 Ysgol Dolafon, Powys
 Ysgol Gyfun Radur, Caerdydd
 Ysgol Gyfun Rhydywaun, Rhondda Cynon Taf
 Ysgol Gyfun y Coed-duon, Caerffili
 Ysgol Gymraeg y Fenni, Sir Fynwy
 Ysgol Gynradd Bethel, Gwynedd
 Ysgol Gynradd Bodringallt, Rhondda Cynon Taf
 Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen, Rhondda Cynon Taf
 Ysgol Gynradd Llanandras, Powys
 Ysgol Gynradd Malpas Court
 Ysgol Gynradd Sofrydd, Blaenau Gwent
 Ysgol Gynradd Whitestone, Abertawe
 Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Bro Morgannwg
 Ysgol Hafod Lon, Gwynedd
 Ysgol Penmaes, Powys
 Ysgol Pennant, Powys
 Ysgol Portfield, Sir Benfro
 Ysgol Syr Hugh Owen, Gwynedd

Astudiaethau achos ar sut mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys cyfraniadau gan ysgolion arbennig, cynradd, uwchradd a phob oed o bob cwr o Gymru, yn cynrychioli ystod o ran:

- maint
- lefelau amddifadedd cymdeithasol
- cyfrwng iaith
- lleoliad, er enghraifft gwledig neu drefol

Rhennir yr astudiaethau achos fel y gall ysgolion eraill eu defnyddio'n gatalydd ar gyfer gwireddu'r Fframwaith yn eu hysgol nhw.

Nid ydym yn cyfeirio at becynnau masnachol oni bai eu bod ar gael fel rhan o Hwb, sef llwyfan dysgu Cymru gyfan Llywodraeth Cymru.

Astudiaeth achos	Sector
1 Ein taith ddigidol fel ysgol anghenion arbennig	Arbennig
2 Ein taith ddigidol fel ysgol gynradd fechan wledig	Cynradd
3 Ein taith ddigidol fel ysgol gynradd	Cynradd
4 Ein taith ddigidol fel ysgol uwchradd	Uwchradd
5 Creu gweledigaeth ysgol gyfan	Uwchradd
6 Pwysigrwydd archwiliadau fel man cychwyn i'n taith ddigidol	Uwchradd
7 Goresgyn problemau seilwaith y rhwydwaith mewn ysgol gynradd	Cynradd
8 Goresgyn problemau seilwaith y rhwydwaith mewn ysgol uwchradd	Uwchradd
9 Goresgyn problemau caledwedd mewn ysgol uwchradd – Dod â'ch Dyfais Eich Hun	Uwchradd
10 Rôl yr arweinydd digidol mewn ysgol gynradd	Cynradd
11 Rôl yr arweinydd digidol mewn ysgol pob oed	Ysgol pob oed
12 Sefydlu triawdau dysgu fel rhan o strategaeth dysgu proffesiynol	Ysgol pob oed
13 Datblygu cynllun gwaith trawsadrannol ar gyfer y Fframwaith	Uwchradd
14 Cynllunio gwersi ar draws adrannau i ymgorffori'r Fframwaith mewn ysgol uwchradd	Uwchradd
15 Datblygu llinyn 'dinasyddiaeth' y Fframwaith gan ddefnyddio llais y disgybl	Cynradd
16 Datblygu meddwl cyfrifiadurol gyda disgyblion cynradd	Cynradd
17 Datblygu meddwl cyfrifiadurol mewn ysgol uwchradd	Uwchradd
18 Datblygu medrau digidol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy waith trawsgwricwlaidd	Canolfan adnoddau dysgu er anghenion cymhleth